# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Canlyniadau'r Cynllun ProAct**

**Dyddiad:** **31 Mawrth 2011**

**Gan:** **Lesley Griffiths, y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau**

Yn y Pwyllgor Menter a Dysgu ar 17 Chwefror 2011, gwnes ymrwymiad i gyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig i Aelodau'r Cynulliad ynghylch y cynllun ProAct.

Ym mis Mehefin 2009, comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gwmni Cambridge Policy Consultants i werthuso'r cynllun ProAct. Cwblhawyd gwerthusiad ffurfiannol cynnar ym mis Ionawr 2010, a daeth y gwerthusiad terfynol drafft i law ym mis Ionawr 2011. Rydym yn disgwyl i ganfyddiadau'r gwerthusiad gael eu dilysu'n derfynol cyn bo hir. Cyn i adroddiad terfynol y gwerthusiad gael ei gyhoeddi, hoffwn rannu mwy o wybodaeth ag Aelodau'r Cynulliad.

Fel y gwyddom, yn ystod ail hanner 2008 llithrodd economi Cymru'n gyflym i mewn i ddirwasgiad dwfn. Bu rhaid i lawer o gwmnïau cyfarwydd a phrofiadol dorri nôl. Roedd rhai ohonynt yn ei chael yn anodd parhau.

Roedd y gadwyn gyflenwi yng Nghymru yn wynebu sefyllfa anodd a heriol. Ar y naill law roedd angen goroesi o ddydd i ddydd, ac ar y llaw arall roedd angen bod yn barod i gystadlu pan fyddai'r economi'n gwella. Roedd yn rhaid torri costau ac o fewn dim o dro roedd rhai cwmnïau wedi gorfod cyflwyno trefniadau gweithio cyfnod byr. Diswyddodd llawer o gwmnïau rai o'u staff. Mewn nifer o achosion doedd fawr o ddewis ond dirwyn y cwmni i ben.

Aeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ati'n gyflym i ddatblygu ProAct fel ymateb i'r dirwasgiad.

Diben y cynllun oedd annog busnesau i gadw'u staff a defnyddio'u capasiti sbâr yn ystod y dirywiad economaidd i hyfforddi staff mewn meysydd a fyddai'n gwella gallu'r busnes i gystadlu pan ddeuai'r adferiad economaidd.

Roedd cam cyntaf y cynllun ProAct yn canolbwyntio ar y sector modurol. Gwnaed hynny oherwydd y cwymp sydyn ledled y byd mewn gwaith

cynhyrchu moduron, a'r niwed parhaol posibl y gallai goblygiadau hynny ei gael ar gyfleusterau gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Ym mis Mawrth 2009, agorwyd ProAct i fusnesau ym mhob sector. Cyflwynodd nifer sylweddol o gwmnïau yn y sector adeiladu a gweithgynhyrchu gais am gymorth o'r cynllun.

Mae'r cymorth ariannol a ddarparwyd gan ProAct yn cynnwys swm sylweddol o gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd. Pan gaeodd ProAct i geisiadau newydd ar 30 Mehefin 2010, roedd dros £27 miliwn wedi'i ymrwymo i gynorthwyo 254 o fusnesau.

Cynorthwyodd ProAct dros 10,000 o unigolion i ddatblygu'r sgiliau a fydd yn gwella perfformiad busnes ac yn eu helpu i gadw'u swyddi.

Erbyn diwedd Rhagfyr 2010, roedd llawer o'r cwmnïau a gymerodd ran yn dweud bod ProAct wedi diogelu swyddi, ac roedd nifer yn nodi y bu cymorth ProAct yn allweddol i greu swyddi newydd.

Rydw i wrth fy modd ag ymateb y gymuned fusnes i effeithiau cadarnhaol ProAct. Mae'n bwysig ein bod yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i lywio'r modd rydym yn darparu a thargedu rhaglenni yn y dyfodol.

Mae cwmnïau a gymerodd ran yn y cynllun ProAct wedi pwysleisio manteision buddsoddi mewn sgiliau, ac wedi canmol llwyddiant ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r dirwasgiad yn hynny o beth.

Roedd rhai agweddau ar y Rhaglen Datblygu'r Gweithlu, fel y Llinell Ffôn Sgiliau Busnes a'r rhwydwaith o Gynghorwyr Datblygu Adnoddau Dynol, yn allweddol i lansio a gweithredu'r cynllun yn sydyn.

Bu'r bartneriaeth gref rhwng staff ProAct, Rheolwyr Perthynas Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, Cynghorwyr Datblygu Adnoddau Dynol a chyrff cynrychioli cyflogwyr yn fodd cyflym o gyrraedd y busnesau hynny a ddioddefodd waethaf yn sgil y dirwasgiad.

Er mwyn ategu llwyddiant ProAct, lansiwyd Sgiliau Twf Cymru ym mis Ebrill 2010 i gynorthwyo busnesau i fanteisio ar y cyfleoedd i dyfu yn sgil yr adferiad economaidd byd-eang.  Hyd yma, mae 81 o fusnesau wedi cyflwyno cais llwyddiannus am gymorth. Bydd hyn yn helpu 10,000 yn rhagor o weithwyr.

I gloi, roedd ProAct yn gynllun a ddatblygwyd ac a ddarparwyd yn ystod y dirwasgiad dyfnaf mewn 80 o flynyddoedd. Mae'r canlyniadau rwyf wedi ei nodi uchod yn drawiadol, ac maent yn destament i'r hyn y gellir ei wneud drwy roi arweiniad cadarn a bod yn benderfynol o lwyddo.

Mae'r canlyniadau'n dweud y cyfan.  Mae ProAct wedi diogelu swyddi, ond mae hefyd wedi creu rhai newydd ac wedi helpu busnesau i fod yn fwy cystadleuol a chynhyrchiol. Ar ben hynny, mae wedi atal rhai cwmnïau rhag

cau. Ar y sail hwnnw, mae wedi gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru.

Rwy'n falch o ddweud bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i baratoi a gweithredu ProAct. Mae'n dangos yn glir bod Llywodraeth y Cynulliad yn gallu bodloni anghenion cyflogwyr ar fyr rybudd, ac ar yr un pryd sicrhau manteision am ei buddsoddiad.

**Cymorth ProAct fesul Etholaeth**

| | **Nifer y cwmnïau cymeradwy** | **Cyfanswm y cyllid a ymrwymwyd (£)** | **Nifer y gweithwyr a gefnogwyd** |
|---|---|---|---|
| Aberafan | 10 | £2,384,755 | 1373 |
| Aberconwy | 3 | £45,086 | 24 |
| Alun a Glannau Dyfrdwy | 4 | £1,247,025 | 644 |
| Arfon | 2 | £220,186 | 87 |
| Blaenau Gwent | 12 | £1,589,926 | 570 |
| Brycheiniog a Sir Faesyfed | 10 | £1,135,206 | 394 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | 5 | £222,988 | 59 |
| Caerffili | 3 | £461,010 | 140 |
| Canol Caerdydd | 0 | £0 | 0 |
| Gogledd Caerdydd | 4 | £139,541 | 35 |
| De Caerdydd a Phenarth | 14 | £1,038,050 | 353 |
| Gorllewin Caerdydd | 3 | £213,326 | 71 |
| Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr | 6 | £1,029,233 | 302 |
| Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro | 5 | £234,307 | 67 |
| Ceredigion | 1 | £31,680 | 8 |
| De Clwyd | 3 | £632,753 | 210 |
| Gorllewin Clwyd | 1 | £7,538 | 13 |
| Cwm Cynon | 6 | £945,273 | 306 |
| Delyn | 4 | £339,065 | 108 |
| Dwyfor Meirionnydd | 7 | £153,749 | 97 |
| Gŵyr | 8 | £596,140 | 192 |
| Islwyn | 9 | £2,065,855 | 934 |
| Llanelli | 13 | £1,719,621 | 477 |
| Merthyr Tudful a Rhymni | 6 | £1,126,741 | 505 |
| Mynwy | 5 | £539,453 | 167 |
| Sir Drefaldwyn | 8 | £925,419 | 236 |
| Castell-nedd | 11 | £906,322 | 287 |
| Dwyrain Casnewydd | 5 | £835,516 | 272 |
| Gorllewin Casnewydd | 1 | £100,135 | 23 |
| Ogwr | 4 | £170,519 | 72 |
| Pontypridd | 11 | £1,205,796 | 326 |
| Preseli Sir Benfro | 7 | £445,574 | 129 |
| Rhondda | 5 | £626,287 | 166 |
| Dwyrain Abertawe | 11 | £442,902 | 144 |
| Gorllewin Abertawe | 10 | £709,009 | 226 |
| Torfaen | 11 | £910,342 | 723 |
| Dyffryn Clwyd | 6 | £759,368 | 298 |
| Bro Morgannwg | 6 | £136,612 | 42 |
| Wrecsam | 9 | £541,057 | 259 |
| Ynys Môn | 5 | £179,381 | 62 |
| **CYFANSYMIAU** | **254** | **£27,012,746.00** | **10401** |